Dull cyffredin o ymdrin â Budd-daliadau Cymru:
Astudiaeth Dichonoldeb

SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

Ebrill 2023

Policy in Practice

Gwybodaeth am Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan ydy melin drafod fwyaf dylanwadol Cymru. Rydyn ni'n creu'r weledigaeth, creu syniadau ac chael effaith sy'n help i roi terfyn ar dlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Rydyn ni'n annibynnol, yn wybodus, yn ysbrydoledig ac yn gynhwysol ym mhopeth a wnawn.

Fel elusen gofrestredig annibynnol, mae Sefydliad Bevan yn dibynnu ar haelioni unigolion a sefydliadau i allu gwneud ei waith.

Cydnabod ein diolch

Mae Sefydliad Bevan yn hynod ddiolchgar i'r sefydliadau canlynol am eu cefnogaeth ariannol tuag at gost y prosiect hwn:

- Barnado's Cymru
- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Home-Start Cymru
- NEU Cymru
- Oxfam Cymru
- Achub y Plant
- Ymddiriedolaeth Trussell
- TUC Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae'r adroddiad hefyd yn rhan o raglen ehangach o waith a gyflawnwyd gan Sefydliad Bevan i ddatrys tlodi, wedi ei ariannu'n yn rhannol gan Sefydliad Joseph Rowntree.

Awduron

Zoe Charlesworth, Alex Clegg, a Jack Rowlands (Policy in Practice).

Hawlfraint Sefydliad Bevan
Sefydliad Bevan, 145a Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DP
info@bevanfoundation.org www.bevanfoundation.org

Rhif Elusen gofrestredig: 1104191 Rhif cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru: 4175018

Policy In Practice

Dull cyffredin o ymdrin â Budd-daliadau Cymru:

Astudiaeth Dichonoldeb

Adroddiad i Sefydliad Bevan
Awduron: Zoe Charlesworth, Alex Clegg, Jack Rowlands, 'Policy in Practice'
Cyhoeddwyd: Mis Mawrth 2023

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu cyfarwyddyd a'u sylwadau drwy gydol yr ymchwil hwn:

- Sefydliad Bevan
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Hoffem hefyd ddiolch yn gynnes i'r mudiadau fu'n ariannu'r ymchwil hwn ac yn cynnig adborth:

- Barnado's Cymru
- Sefydliad Bevan
- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Home Start Cymru
- NEU Cymru (Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru)
- Oxfam Cymru
- Cronfa Achub y Plant
- Ymddiriedolaeth Trussell
- TUC Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae'r cyfan o'r sylwadau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn eiddo i 'Policy in Practice' yn unig.

Gwybodaeth am gwmni 'Policy in Practice'

Mae cwmni 'Policy in Practice' yn gwmni meddalwedd, ymchwil a dadansoddi ym maes polisi cymdeithasol sy'n gweithio gyda chynghorau, y llywodraeth, darparwyr tai a sefydliadau cymunedol. Rydyn ni'n helpu sefydliadau i ddadansoddi effaith polisi, nodi ac ymgysylltu â'r bobl yr effeithir arnyn nhw, ac yn olrhain effeithiolrwydd yr ymyriadau.

Mae 'Policy in Practice' yn rhedeg un o'r dulliau amcangyfrif budd-daliadau ar GOV.UK ac yn helpu awdurdodau lleol a chleientiaid eraill i ganfod a chefnogi cwsmeriaid sy'n cael trafferth. Credwn y dylai fod yn hawdd i bobl gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

I ganfod rhagor am ein gwaith, ewch i'n gwefan neu cysylltwch ar: hello@policyinpractice.co.uk

Rhagarweiniad

Ers cryn amser, mae Sefydliad Bevan wedi cydnabod pwysigrwydd y grantiau a'r lwfansau amrywiol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru i aelwydydd incwm isel. Gan amrywio o'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor hyd at Brydau Ysgol am Ddim, mae'r grantiau a'r lwfansau hyn yn darparu cymorth hanfodol i aelwydydd incwm isel ledled Cymru ac yn cyd-redeg â'r cymorth a ddarperir drwy system nawdd cymdeithasol y DU.

Wrth i ymwybyddiaeth o'r cynlluniau hyn gynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cynyddu hefyd mae ein dealltwriaeth o gyfyngiadau'r system bresennol. Mae dros bedair blynedd ers i Sefydliad Bevan dynnu sylw am y tro cyntaf at gymhlethdod grantiau a lwfansau datganoledig, sydd â phob un gyda'u gofynion a'u gweinyddiaeth ei hunain. Mae'n rhaid i aelwydydd gyflwyno ceisiadau niferus i gael mynediad at yr holl gymorth y mae ganddyn nhw'r hawl iddo, gan arwain at ddryswch ac achosi bod nifer isel yn manteisio arnyn nhw.

Cynigiodd Sefydliad Bevan y dylai'r grantiau a'r lwfansau amrywiol hyn gael eu dwyn ynghyd mewn un fframwaith a alwyd gennym yn System Fudd-daliadau Cymru. Rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu system o'r fath i wella mynediad, cynyddu'r nifer sy'n manteisio arni a sicrhau gweinyddiaeth effeithlon a chyson ledled Cymru. Fel y cyfryw, mae gan System Fudd-daliadau Cymru botensial gwirioneddol i godi pobl allan o dlodi.

Rydyn ni wedi cael cefnogaeth i'r syniad o System Fudd-daliadau Cymru gan bob plaid yn y Senedd ac o fewn y gymdeithas sifil yng Nghymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo eisoes o fewn Llywodraeth Cymru ar y mater, gan ganolbwyntio ar rannu'r arferion gorau a sefydlu'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i ddull newydd o weithredu. Mae hwn yn waith i'w groesawu ac yn darparu sylfeini pwysig i adeiladu arnyn nhw.

Bellach, mae'n bryd i droi'n sylw at sut i roi'r egwyddorion ar waith. I'r diben hwn mae Sefydliad Bevan wedi cydweithio gyda sawl sefydliad arall i gomisiynu'r arbenigwyr allanol, 'Policy in Practice', i asesu sut i weithredu dull cyffredin o ymdrin â budd-daliadau Cymru gan ganolbwyntio ar ofynion data. Mae'r gwaith wedi'i wneud yn annibynnol gan 'Policy in Practice', gyda'r holl safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn eiddo i'r tîm ymchwil.

Mae'r canfyddiadau yn wir gwerth eu darllen. Maen nhw'n dangos bod sefydlu System Fudd-daliadau Cymru yn ymarferol o ran trafod y data. Nid yn unig y mae'n ymarferol, mae'r adroddiad hefyd yn amlygu'r ffaith y gallai sefydlu System Fudd-daliadau Cymru arwain at werth miliynau o bunnoedd o fudd-daliadau nas hawliwyd i fod yn cyrraedd pocedi pobl sydd ar incwm isel.

Byddai'n cymryd amser i greu System Fudd-daliadau Cymru yn gyflawn. Mae’r adroddiad yn nodi sawl cam y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd yn y tymor canolig i sefydlu trefniadau cynhwysfawr. Mae'n hanfodol bod y camau hyn yn cael eu cymryd, ac i wneud hynny rydyn ni'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp gweithredu sy'n cynnwys y rhai sy'n darparu'r grantiau a'r lwfansau ar hyn o bryd, ynghyd ag arbenigwyr eraill.

Ond does dim angen i ni oedi - mae rhai manteision ar gael i'w hennill ar unwaith. Dengys yr adroddiad y gallai gwneud defnydd gwell o ddata gynyddu’r niferoedd sy’n manteisio ar nifer o grantiau a lwfansau, gan roi rhywfaint o ryddhad i aelwydydd sydd dan bwysau mawr yn ystod yr argyfwng costau byw. Rydyn ni'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda’i phartneriaid i weithredu arnyn nhw, a hynny ar frys.

Sefydliad Bevan

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei system ei hun o fudd-daliadau, grantiau a lwfansau, gwerth tua £400m i gynyddu cymorth i ddinasyddion Cymru. Ar gyfer aelwydydd cymwys yng Nghymru, mae'r cymorth ychwanegol hwn yn werth hyd at tua £4,000 y flwyddyn. Mae'r system fudd-daliadau yng Nghymru yn cynnwys budd-daliadau ar sail hawliau (fel Prydau Ysgol am Ddim) a chymorth yn ôl disgresiwn (fel y Gronfa Cymorth Dewisol).

Mae budd-daliadau sy'n seiliedig ar hawliau yng Nghymru yn cael eu gweinyddu gan amrywiaeth o sefydliadau fel Cynghorau Cymru, GIG Cymru, a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu, er bod y buddion yn rhan o system fudd-daliadau ehangach Cymru, mae pob budd-daliad yn ymddangos fel rhai ar eu pennau eu hunain.

Yn gyffredinol, mae angen gwneud ceisiadau ar wahân ar gyfer pob un o'r budd-daliadau a'r lwfansau hyn. Mae hyn yn creu'r posibilrwydd na fydd aelwydydd yn hawlio'r holl gymorth y gallen nhw fod â hawl iddo. Gall cael gafael ar gymorth fod yn arbennig o heriol i'r trigolion mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn cydnabod y gall y system bresennol yng Nghymru arwain at ddryswch i rai sy'n hawlwyr. Oherwydd hyn, mae Sefydliad Bevan, gyda chefnogaeth ariannol gan grŵp o sefydliadau[1], wedi comisiynu cwmni 'Policy in Practice' i werthuso sut y gall data gefnogi'r broses o ddatblygu mwy o gyffredinedd ar draws budd-daliadau Cymru.

Trosolwg o'r Ymchwil

Mae'r ymchwil sydd yn yr adroddiad hwn yn archwilio'r data sy'n berthnasol i fudd-daliadau yng Nghymru ac yn dadansoddi sut, ac i ba raddau, y gellir defnyddio data i gefnogi mwy o unffurfiaeth ar draws budd-daliadau Cymru. Canfyddiadau'r gwerthusiad ydy sail yr argymhellion.

Byddai mwy o unffurfiaeth ar draws budd-daliadau Cymru yn debygol o gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gymorth, a byddai'n cael goblygiadau ariannol i ddinasyddion Cymru, Llywodraeth Cymru, a chynghorau Cymru. Mae'r ymchwil yn darparu amcangyfrifon o oblygiadau cost o'r fath.

[1] Cafodd y prosiect ei ariannu gan: Barnado's, Sefydliad Bevan, Cyngor ar Bopeth Cymru, Home Start Cymru, NEU Cymru, Oxfam Cymru, Cronfa Achub y Plant, Ymddiriedolaeth Trussell, TUC Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Casgliadau

Mae sefydliadau sy'n gweinyddu budd-daliadau sy'n seiliedig ar hawliau yng Nghymru yn cadw symiau sylweddol o ddata am aelwydydd Cymru. Cedwir y cofnodion hyn ar hyn o bryd mewn cronfeydd data budd-benodol wedi'u dad-gyfuno. Gan mai dim ond cofnodion sy'n berthnasol i fudd-dal penodol y mae pob sefydliad yn eu cadw, dydy'r setiau data canlyniadol ddim yn cydio'n hawdd i'w gilydd. Dydyn nhw ychwaith ddim yn cydio'n rhwydd i ddata a ddarparwyd i gynghorau Cymru gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer gweinyddu Gostyngiad y Dreth Gyngor (Rhannu Data Credyd Cynhwysol (UCDS)). Yn absenoldeb cronfa ddata gyfanredol o fudd-daliadau Cymru, yr UCDS ydy'r set ddata fwyaf cynhwysfawr sydd ar gael ar hyn o bryd. O'r herwydd, mae'n ddefnyddiol archwilio ei botensial at ddibenion datblygu dull unffurf i ymdrin â budd-daliadau yng Nghymru.

Mae nifer o nodweddion cadarnhaol wrth weinyddu budd-daliadau yng Nghymru a fyddai'n ddadl dros gael mwy o unffurfiaeth:

- Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu budd-daliadau Cymru yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru, felly mae o fewn ei grym i gyflwyno diwygiadau rheoleiddiol er mwyn hwyluso mwy o unffurfiaeth.
- Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol yn gyfle i ddefnyddio data wedi'i ddilysu am yr aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol er mwyn cefnogi dull cyffredin o ymdrin â budd-daliadau sy'n seiliedig ar hawliau yng Nghymru.
- Mae yna arferion da ar draws sefydliadau sy'n gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru o ran defnyddio data i gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau ac er mwyn hwyluso gwneud cais. Gallai hyn helpu i lywio'r datblygiad tuag at gael dull cyffredin.
- Mae sefydliadau sy'n gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru yn cadw llawer iawn o ddata am yr aelwydydd incwm isel. Mae cyfle i gyd-grynhoi'r data hwn, neu i rannu data'n fwy effeithlon ar draws sefydliadau.

Mae'r ymchwil hwn yn dynodi sawl mesur sy'n manteisio ar yr agweddau cadarnhaol hyn ac y gellid eu rhoi ar waith i gynyddu unffurfiaeth ar draws budd-daliadau yng Nghymru. Mae'n nodi dau brif lwybr y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth roi dull gweithredu mwy unffurf ar waith: dull canolog gyda chronfa ddata ganolog a/neu borth canolog i wneud ceisiadau, neu ddull gweithredu mwy unffurf o fewn y strwythurau presennol. Dydy'r rhain ddim yn annibynnol ar ei gilydd ac mae cyfle i gyflwyno mwy o unffurfiaeth o fewn y strwythurau presennol tra'n gwerthuso dull mwy canolog.

Mae sawl mantais i ddatblygu cronfa ddata ganolog gyda phorth canolog i wneud cais. Byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i gadw ei data ei hun ar ddinasyddion incwm isel heb ddibynnu ar Lywodraeth y DU. Byddai hyn yn galluogi targedu cymorth a chael golwg gyfannol ar drigolion, ar draws nifer o fudd-daliadau. Byddai hefyd yn cynorthwyo

Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan ddata wrth ddylunio cymorth. Byddai porth canolog i wneud cais yn hwyluso mynediad at gymorth i ddinasyddion Cymru a byddai'n goresgyn llawer o'r rhwystrau presennol i rannu data. Gellid datblygu cronfa ddata ganolog drwy borth cyffredin gwneud cais neu drwy gyd-grynhoi cronfeydd data sy'n bodoli eisoes a chadw'r mecanweithiau cyfredol i wneud cais. Mae'n debyg mai'r opsiwn mwyaf dichonadwy fyddai dull cyfuno. Pe bai Llywodraeth Cymru yn dymuno dilyn yr opsiwn hwn, argymhellir ei bod yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb dechnegol i lywio'r gwaith dylunio a gweithredu.

Mae'r ymchwil hefyd yn dynodi mesurau y gellid eu rhoi ar waith i gynyddu unffurfiaeth ar draws budd-daliadau yng Nghymru o fewn y strwythurau presennol a heb fod angen datblygu dull gweithredu canolog. Mae manteision i'r dull hwn gan y gellir cyflawni llawer o'r mesurau'n gymharol gyflym ac adeiladu ar yr arferion presennol. Gall yr argymhellion hefyd osod y sylfaen ar gyfer datblygu dull mwy canolog yn y dyfodol.

Gallai rhai o'r mesurau gaiff eu hargymell wneud gwahaniaeth sylweddol i ddinasyddion Cymru. Yn benodol, defnyddio data i weithredu dull mwy unffurf o nodi cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau Cymru ac felly ysgogi'r nifer sy'n manteisio arnyn nhw, ac yn ail, datblygu dull gweithredu unffurf o awtomeiddio ceisiadau am CTR (Gostyngiad Treth Cyngor) a fyddai'n alinio dyddiad cychwyn CTR â dyddiad y Credyd Cynhwysol, a thrwy hynny'n atal cronni ôl-ddyledion Treth y Cyngor.

Isod, fe welwch y mesurau y gellir eu rhoi ar waith o fewn y strwythurau data cyfredol. Rhennir y rhain yn fesurau sy'n gymharol syml i'w gweithredu, a'r rhai y byddai angen amserlen hwy ar gyfer eu rhoi ar waith.

<u>Argymhellion sy'n gymharol hawdd i'w gweithredu</u>

- *Cyflwyno dull unffurf o ddynodi cymhwysedd a thargedu cymorth*
  Mae'r deunyddiau ar gyfer dull unffurf o nodi cymhwyster eisoes yn bodoli. Gallai hyn optimeiddio'r defnydd o'r UCDS, defnyddio'r offer presennol (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddangosfwrdd LIFT 'Policy in Practice'), ac adeiladu ar arferion da presennol o fewn cynghorau Cymru a sefydliadau eraill. Byddai dull gweithredu unffurf yn cael ei hwyluso drwy ganllawiau canolog gan Lywodraeth Cymru ar rannu data UCDS at ddibenion hawlio budd-daliadau. Gallai dull unffurf o nodi cymhwysedd, gan ddefnyddio data'r cynghorau eu hunain, lywio'r ffordd ar gyfer cyd-grynhoi cronfeydd data cynghorau yn y dyfodol.

  Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru ddatblygu dull cyffredin o ddefnyddio dulliau amcangyfrif budd-daliadau sy'n

canolbwyntio ar Gymru i nodi cymhwysedd i hawlio budd-daliadau Cymru, yn ogystal â budd-daliadau ar gyfer y DU gyfan.

- *Cyflwyno mwy o unffurfiaeth yn y dull o wneud cais am fudd-daliadau yng Nghymru*
  Gellir gwneud ffurflenni cais am fudd-daliadau yng Nghymru yn fwy unffurf yn weledol trwy ymgorffori elfennau dylunio cyffredin, yn ogystal â digideiddio'r drefn gyfredol o wneud cais. Gallai ffurflenni cais gipio caniatâd i ddefnyddio data i wneud cais am yr holl fuddion Cymreig, ac i gyfeirio pobl at holl fudd-daliadau Cymru ar y pwynt ymgeisio. Mae hyn yn gwella amlygrwydd budd-daliadau Cymru ac mae'n paratoi'r ffordd ar gyfer awtomeiddio ceisiadau am unrhyw fudd-dal lle mae yna feini prawf cymhwyster sy'n gorgyffwrdd.

- *Cyflwyno dull unffurf o awtomeiddio gwneud cais am Ostyngiad Treth Cyngor (CTR)*
  Mae arferion presennol yn amrywio ar hyd a lled cynghorau Cymru. Byddai cynyddu unffurfiaeth awtomeiddio ar gyfer y cais am Ostyngiad Treth Cyngor (CTR) yn gymharol syml ac yn cael effaith gadarnhaol ar nifer fawr o aelwydydd. Gellid cyflawni hyn drwy i Lywodraeth Cymru ddiwygio rheoliadau cyfredol y CTR i gynnwys derbyniad clir o fwriad i hawlio y Credyd Cynhwysol fel hawliad am CTR.

- *Cyflwyno dull cyffredin o ymdrin â risg wrth ddilysu tystiolaeth*
  Mae gan sefydliadau sy'n gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru ddulliau gwahanol o ymdrin â risg. Byddai o gymorth i sefydliadau pe bai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar wirio tystiolaeth a dull o ymdrin â risg.

- *Cynnal adolygiad o ofynion cyfredol ynglŷn â chipio data*
  Byddai'n fuddiol pe bai sefydliadau sy'n gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru yn adolygu eu gofynion ym maes cipio data gyda'r nod o leihau maint y mewnbwn ac i osgoi dyblygu data.

<u>Argymhellion y byddai angen amserlen hwy ar gyfer eu gweithredu.</u>

- *Diwygio rheoliadau sy'n ymwneud â budd-daliadau yng Nghymru*
  Mae rheoliadau ar gyfer budd-daliadau yng Nghymru o fewn grymoedd Llywodraeth Cymru. Gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ystyried unffurfiaeth wrth ddylunio rheoliadau. Byddai cael mwy o bethau'n gyffredin ymhlith meini prawf cymhwyster ar draws budd-daliadau yn paratoi'r ffordd ar gyfer un set o ofynion cipio data ar draws budd-daliadau Cymru, a thrwy hynny yn hwyluso gwneud ceisiadau. Gallai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried diwygio cynllun y drefn gofyn am CTR i gyd-fynd â threfn y Credyd Cynhwysol fel ei fod yn caniatáu mwy o awtomeiddio wrth asesu a dyfarnu.

- *Gweithio tuag at gael mwy o oruchwyliaeth dros ddinasyddion incwm isel Cymru*
  Dydy setiau data cyfredol sefydliadau sy'n gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru ddim ond yn casglu data ar gyfran yn unig o aelwydydd incwm isel a dyw'r setiau data hyn ddim wedi'u cyd-grynhoi. Gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i'r Adran Gwaith a Phensiynau gan ddadlau y dylai rhannu data Credyd Cynhwysol ar drigolion Cymru fod yn gymesur.

- *Cynnwys dangosydd budd-daliadau Cymru o fewn ceisiadau budd-daliadau y DU gyfan*
  Mae mwyafrif y deiliaid tai sydd ar incwm isel ar draws y DU yn hawlio naill ai Credyd Cynhwysol neu Gredyd Pensiwn. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r achos i'r Adran Gwaith a Phensiynau o blaid cynnwys dangosydd i hawlio budd-daliadau Cymru, ar gyfer holl ddinasyddion Cymru, mewn ceisiadau budd-dal perthnasol ar gyfer y DU gyfan.

- *Cyflwyno dull cyffredin awtomataidd o fynd ati ym maes Prydau Ysgol am Ddim (FSM)*
  Mae gofynion data Prydau Ysgol am Ddim yn cyd-redeg yn agos â rhai'r UCDS. Gallai Llywodraeth Cymru fanteisio ar hyn ac, mewn partneriaeth â chynghorau Cymru a CLlLC/WLGA, archwilio'r posibilrwydd o gael dull unffurf o weithredu'r broses o wneud cais ac asesu'r hawl i Brydau Ysgol am Ddim yn awtomatig.

- *Hwyluso'r drefn o wirio data*
  Gallai Llywodraeth Cymru weithio tuag at ddatblygu un porth ar gyfer dilysu tystiolaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM, a pherchnogion data ychwanegol, i'w ddefnyddio gan bob sefydliad gweinyddol.

I Gloi

Mae gwerthusiad o'r data a gedwir gan sefydliadau gweinyddol yn awgrymu cyfleoedd clir ar gyfer datblygu dull gweithredu mwy cyffredin ar draws y budd-daliadau yng Nghymru.

Byddai gweithredu'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn yn gofyn am ddull partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, cynghorau Cymru, a chynrychiolwyr yr adrannau perthnasol o fewn y GIG ac addysg yng Nghymru. Byddai hyn yn galluogi sefydliadau i ddynodi ymhle y byddai canllawiau canolog, neu newid deddfwriaethol, yn ddefnyddiol i hwyluso gweithrediad.

Bydd yna effaith cost yn dilyn unrhyw gynnydd yn y niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau ond gellir gwrthbwyso llawer o hyn yn erbyn y budd i economïau lleol ac er mwyn osgoi argyfwng, yn ogystal ag arbedion gweinyddol a wneir drwy gyfuno prosesau ymgeisio ac wrth fanteisio mwy ar yr awtomeiddio.

Mae manteision amlwg dros gyflwyno dull mwy unffurf wrth ymdrin â budd-daliadau yng Nghymru. I ddinasyddion Cymru, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, bydd yn arwain at lwybr llai cymhleth a llafurus i sicrhau cymorth budd-daliadau, gan arwain at fwy o bobl yn manteisio ar fudd-daliadau a chynyddu eu hincwm.

Ar gyfer sefydliadau sy'n gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru, bydd cael canllawiau unffurf a diwygiadau rheoliadol yn symleiddio penderfyniadau wrth weinyddu ac yn hwyluso awtomeiddio, gyda goblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau. I Lywodraeth Cymru, byddai dull gweithredu mwy unffurf yn cynyddu'r gefnogaeth i'w dinasyddion ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer datblygu dull o weinyddu a arweinir gan ddata ac ar gyfer dylunio system fudd-daliadau gydlynol yng Nghymru.